**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**Chwefror 6ed 2023**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Elwyn Jones, Gareth T Jones, Huw Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Cai Larsen, Edgar Owen, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts, Huw Rowlands, Gareth Coj Parry a Gruffydd Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Keira Sweenie (Rheolwr Cynllunio), Idwal Williams (Arweinydd Tim Rheolaeth Datblygu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Ymddiheuriadau:**

Dim i'w nodi

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO
CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 6 Chwefror 2023 |

**PWNC: Eitem 5.1 C21/1028/18/LL Cartref Nyrsio Penisarwaun, Penisarwaun, Caernarfon, Gwynedd, LL55 3DB**

**Newid defnydd o gartref gofal (Dosbarth Defnydd C2 - sefydliadau preswyl) i hostel gwasanaethol ar gyfer defnydd gwyliau (Defnydd Unigryw) ynghyd a llety byw warden cysylltiedig.**

**PENDERFYNIAD:**
**Gwrthod y cais yn seiliedig ar y rhesymau isod:**

1. **Ystyrir bod y bwriad fel y'i cyflwynwyd yn groes i ofynion Polisi PCYFF 1, PCYFF 2 a TWR 2 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, 2017 ynghyd a'r Cyngor a gynhwysir o fewn y ddogfen Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid ar sail diffyg gwybodaeth sy'n cadarnhau'r niferoedd o wlâu a fwriedir ei ddarparu fel rhan o'r bwriad ac o ganlyniad i'r diffyg hyn, ni ellir rhoi ystyriaeth lawn i effaith y bwriad ar fwynderau trigolion lleol. Er hyn, ac yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno gyda'r cais, rhagwelir byddai'r bwriad, oherwydd y nifer o ystafelloedd gwlâu a'r gallu i'r atyniad lletya nifer sylweddol o breswylwyr, cael ad-drawiad ar fwynderau preswyl trigolion lleol ar sail cynnydd mewn aflonyddwch sŵn a chyffredinol a fyddai'n tarddu o'r llety gwyliau/hostel arfaethedig.**

2. **Ystyrir bod y bwriad fel y'i cyflwynwyd yn groes i Bolisi PCYFF 1 a gofynion Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy oherwydd diffyg gwybodaeth sydd wedi ei gyflwyno parthed natur ac ehangder y llety rheolwr/warden o fewn y llety gwyliau/hostel arfaethedig.**

3. **Ystyrir bod y bwriad fel y'i cyflwynwyd yn groes i ofynion Polisi TRA 2 a TRA 4 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, 2017 ynghyd a'r cyngor a gynhwysir yn y ddogfen Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth gan nad oes darpariaeth ddigonol o barcio o fewn y safle wedi ei gynnig ac fe all hyn, yn ei dro, gorfodi cerbydau i barcio ar ochr *(verge)* y ffordd sirol gyfochrog ar draul diogelwch ffyrdd.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 11 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 1 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

(Cyng Elwyn Jones – Aelod Lleol)

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 6 Chwefror 2023 |

---

**PWNC: Eitem 5.2 C22/1020/11/LL Cyn Ysgol Glanadda Llwybr Yr Ysgol, Bangor, Gwynedd, LL57 4SG**

**Adeiladu ysgol gynradd unllawr newydd gyda 150 lle, meithrinfa 20 lle a Chylch Meithrin 30 lle a gwaith allanol cysylltiedig, gan gynnwys trin ffiniau, trefniadau parcio newydd a darpariaethau mynediad gwell ar gyfer adleoli Ysgol Ein Harglwyddes ar hen safle Ysgol Glanadda.**

---

**PENDERFYNIAD: Gohirio er mwyn ymgynghori gyda'r holl aelodau lleol perthnasol**

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 11 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 1 |

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

(Cyng Gareth A Roberts a Cyng Huw Wyn Jones – Aelodau Lleol)

---